# Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

| | Polisi Statudol | Polisi Anstatudol |
|---|---|---|
| **Cydweithio** - polisi enghreifftiol a ddatblygwyd gan Adran Addysg a Gwasanaethau Plant Sir Ddinbych mewn cydweithrediad gydag ysgolion a phartneriaid, a gall cyrff llywodraethu'r ysgolion ddewis ei fabwysiadu, neu mae'n rhaid iddynt gynhyrchu un eu hunain yn unol â'r canllawiau perthnasol. | | |
| **Heb ymgynghori / cydweithio -** polisi model a grëwyd heb unrhyw ymgynghoriad neu gydweithrediad ffurfiol y gall cyrff llywodraethu'r ysgolion ddewis ei fabwysiadu, neu mae'n rhaid iddynt gynhyrchu un eu hunain yn unol â'r canllawiau perthnasol. | | |

Mae'r polisi model hwn yn seiliedig ar God ACRh Llywodraeth Cymru (2022). Mae Asesiad o Effaith ar Les hefyd wedi cael ei chwblhau ar gyfer y polisi model hwn.

Er mwyn sicrhau bod y polisi hwn yn ystyrlon, argymhellwn yn gryf fod ysgolion sy'n defnyddio'r polisi model hwn a'r asesiadau o effaith yn treulio amser yn ystyried a phersonoli'r wybodaeth ynddynt i adlewyrchu anghenion ac arferion eu hysgol, ac yn cynnal unrhyw ymgynghoriadau hanfodol gyda staff, rhieni/gofalwyr, dysgwyr a budd-ddeiliaid eraill gan geisio'r cymeradwyaethau perthnasol.

Llwyd: Darnau i'r ysgol eu haddasu i adlewyrchu eu harferion

*Ffôn / Phone: 01745 812959 (Llun/Monday – Gwener/Friday, 8:30am to 5pm).*

*Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.*

*Ysgrifennwch atom / Write to us: ysgol.henllan@denbighshire.gov.uk*

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi / We welcome correspondence in Welsh. We will respond to any correspondence in Welsh which will not lead to a delay.*

*Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg, ac ar gais, gall fod ar gael mewn fformatau eraill / This document is also available in English, and may be available in other formats on request.*

SAMPLE

# Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb - Ysgolion Cynradd
# Medi 2023

SAMPLE

**Enw'r Ysgol** Ysgol Gymraeg Henllan

**Cyfeiriad** **Ffordd Dinbych, LL16 5AW**

**Rhif/e-bost cyswllt ysgol.henllan@denbighshire.gov.uk**

**Gwefan** XXXX

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg, a gall fod ar gael mewn fformatau eraill ar gais.

# Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

## I’w gwblhau gan yr ysgol:

| | |
|---|---|
| Rhif fersiwn y polisi | 1 |
| Dyddiad cafodd y Polisi ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Corff Llywodraethu | Hydref 11, 2023 |
| Dyddiad daw’r polisi i rym | Medi 2023 |
| Dyddiad Adolygu | 2026 |
| Llofnodwyd (Pennaeth) | Lynne Jones |
| Llofnodwyd (Cadeirydd y Corff Llywodraethu) | Alan Roberts |
| Gwybodaeth am y polisi hwn ar gael i rieni/gofalwyr | Yn y ffeil polisïau yn y swyddfa |
| Dyddiad cwblhau’r asesiad lles | Chwefror 2023 |
| Dyddiad cwblhau’r asesiad effaith diogelu data perthnasol (lle bo hynny’n berthnasol) | Amherthnasol |

### I'w lenwi gan Wasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych:

| | |
|---|---|
| Datblygwyd y Polisi gan | Gwasanaethau Addysg a Phlant |
| Dyddiad y cyflwynwyd y polisi gwreiddiol i ysgolion Sir Ddinbych | Medi 2023 |
| Rhif y fersiwn a dyddiad | Fersiwn 1 Medi 2023 |
| Dyddiad Adolygu | Medi 2025 |
| Dyddiad cwblhau’r asesiad lles | 20/02/2023 |
| Dyddiad cwblhau’r asesiad effaith diogelu data perthnasol (lle bo hynny’n berthnasol) | Amherthnasol. |

SAMPLE

# Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

## Addasiadau ers y fersiwn ddiwethaf o’r polisi

Os yw’r polisi hwn wedi cael ei addasu, nodwch pa newidiadau a wnaed.

| Pwynt | Y Newid a Wnaed |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

SAMPLE

# Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

## 1. Cyflwyniad

### **1.1** Datganiad gan y Corff Llywodraethu

1.1.1 Mabwysiadodd gorff llywodraethu Ysgol Gymraeg Henllan y polisi hwn ar (11/10/23). Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan y corff llywodraethu mewn dwy flynedd i sicrhau bod y polisi'n alinio gyda chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru a rheoliadau statudol.

### 1.2 Datganiad Rhagarweiniol

1.2.1 Mae gan ACRh swyddogaeth gadarnhaol mewn addysg dysgwyr ac mae'n chwarae rhan allweddol i gefnogi dysgwyr i sefydlu a chynnal ystod o berthnasau, i gyd yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch sydd yn sylfaen i ACRh. Mae'r perthnasau hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwytnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiad eu hunain, a sefydlu perthnasau sy'n hollol gynhwysol, yn adlewyrchu amrywiaeth ac yn hyrwyddo parch.

1.2.2 Bydd ein ACRh yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau a gwerthoedd i ddeall sut mae perthnasau a rhywioldeb yn siapio eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Bydd dysgwyr yn gallu gofyn am gefnogaeth ar faterion sy'n ymwneud ag ACRh ac i eirioli dros eu hunain ac eraill.

1.2.3 Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ACRh wedi ei wreiddio yng ngwerthoedd, hawliau a fframwaith moesol yr ysgol e.e. trwy ddangos parch i'r holl ddysgwyr a'r gymuned ehangach, trwy ddathlu gwahaniaethau, sefydlu perthnasau iach a chynnwys amrywiaeth rhywiol.

SAMPLE

## 2. Nodau ac amcanion

### 2.1 Nodau

2.1.1 Mae ACRh yn chwarae rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg dysgwyr ac yn eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ddull ysgol gyfan. Mae'n helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasau gwahanol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch, sef sylfeini ACRh. Mae'r perthnasau hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwytnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiad eu hunain, a sefydlu perthnasau sy'n hollol gynhwysol, yn adlewyrchu amrywiaeth ac yn hyrwyddo parch.

2.1.2 Nod y polisi hwn yw sicrhau bod ein hysgol yn cyflawni ei rôl bwysig o ran creu amgylchedd diogel a grymusol sy'n cefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau perthnasau diogel, iach a boddhaus drwy gydol eu bywydau. Mae'n hanfodol ar gyfer datblygu cymdeithas sy'n ymdrin ag eraill gyda dealltwriaeth ac empathi, beth bynnag fo'u hethnigrwydd, cefndir economaidd gymdeithasol, anabledd, neu ryw, cenedl neu rywioldeb.

### 2.2 Amcanion

Drwy fabwysiadu'r polisi hwn, bydd gan ein hysgol:-

2.2.1 Gynllun gwaith sy'n briodol yn ddatblygiadol ac yn seiliedig ar ymgynghoriad â dysgwyr a gaiff ei werthuso a'i adolygu'n rheolaidd

2.2.2 Staff hyderus a chymwys i ddarparu'r cynllun gwaith

2.2.3 ACRh sefydledig gan ddefnyddio dull ysgol gyfan o ran ethos yr ysgol

SAMPLE

## 3. Cyd-destun Cyfreithiol

### 3.1 Cod ACRh Llywodraeth Cymru

3.1.1 Mae Cod ACRh Llywodraeth Cymru'n cynnwys y gofynion gorfodol. Mae dysgu ac addysgu o fewn ein rhaglen ACRh ysgol gyfan yn cynnwys yr elfennau gorfodol a amlinellwyd yn y Cod. Felly mae ein hysgol wedi cynllunio a datblygu rhaglen dysgu ac addysgu ysgol gyfan cynhwysfawr, cynhwysol sy'n briodol yn ddatblygiadol ar gyfer ACRh sy'n cydymffurfio gyda'r Cod . Mae'r polisi hwn yn nodi ein dull ysgol gyfan i ACRh.

### 3.2 Hawl i Dynnu Allan

3.2.1 Mae ACRh yn ofyniad gorfodol yng Nghwricwlwm i Gymru 2022 ar gyfer holl ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed. Nodir yn y Cod ACRh nad oes hawl i dynnu dysgwyr o unrhyw ran o ACRh.

## 4 Cysylltiadau â chanllawiau cenedlaethol a pholisïau eraill yr ysgol

### 4.1 Mae'r polisi hwn yn alinio gyda'r canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru:

4.1.1 Canllawiau Cwricwlwm i Gymru
4.1.2 Cwricwlwm i Gymru - Cod ACRh, 2022
4.1.3 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

Llywodraeth y DU

4.1.4 Deddf Cydraddoldeb 2010

4.1.5 Crëir y polisi hwn ar y cyd â pholisïau eraill, gan gynnwys: (Cyfrinachedd, Diogelu, Diogelu Plant a Deddf Trais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015).

SAMPLE

## 5. Sut datblygwyd y polisi

5.1 Datblygwyd y polisi model gan ddefnyddio'r cod ACRh (2022) gan ymgynghorydd annibynnol yn Teach Health 4 Kids. Ymgynghorwyd ar y model gyda phenaethiaid ac undebau dysgu. Cwblhawyd asesiad o effaith ar gydraddoldeb hefyd.

5.2 Mae'r polisi hwn yn cynnwys dull gweithredu'r ysgol o ran ACRh. Fe'i cymeradwywyd gan yr Uwch Dîm Rheoli trwy ymgynghori gyda (Staff ysgol– Lynne Jones, llywodraethwyr – Fiona Dupays).

5.3 Mae'r polisi wedi cael ei rannu gyda staff a llywodraethwyr ac mae ar wefan yr ysgol ar gyfer rhieni.

## 6. Rolau a Chyfrifoldebau

### 6.1 Corff llywodraethu

6.1.1 Trwy fabwysiadu'r polisi hwn, mae corff llywodraethu Ysgol Gymraeg Henllan yn cydnabod ei gyfrifoldeb i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol, fod gan ACRh ddigon o adnoddau, staff a'i fod yn cael ei gyflwyno gan ddefnyddio dull trawsgwricwlaidd ac yn sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni ei oblygiadau cyfreithiol.

### 6.2 Pennaeth

6.2.1 Cyfrifoldeb y Pennaeth yw gweithredu'r polisi ar draws yr ysgol a chefnogi'r arweinydd ACRh.

6.2.2 Mae ein hysgol yn cydnabod fod dysgu proffesiynol yn allweddol ar gyfer ACRh o ansawdd uchel. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod holl staff addysgu ac aelodau cysylltiedig o staff yn cael hyfforddiant ACRh priodol er mwyn sicrhau bod y rhaglen ACRh ysgol gyfan yn effeithiol, yn cynnwys elfennau trawsgwricwlaidd, yn briodol yn ddatblygiadol ac yn diwallu anghenion ein dysgwyr.

SAMPLE

## 6.3 Staff

6.3.1 Bydd ein Harweinydd ACRh yn cefnogi holl staff addysgu a staff cysylltiedig i gael cyfleoedd dysgu proffesiynol a fydd yn cynorthwyo i ddatblygu eu hyder, gwybodaeth a sgiliau mewn ACRh.

## 6.4 Rhieni / Gofalwyr

6.4.1 Mae'r ysgol yn cydnabod fod rhieni/gofalwyr yn allweddol i lwyddiant y rhaglen ACRh. Felly mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth am beth a gyflwynir ac yn darparu cyfleoedd i rieni/gofalwyr roi sylw ar y polisi. Mae'r polisi ACRh ar gael ar (wwww.ysgolhenllan.weebly.com).

6.4.2 Mae croeso i rieni/gofalwyr drefnu i ymweld â'r ysgol os ydynt yn dymuno gweld a thrafod y deunyddiau a'r adnoddau a ddefnyddir yn y gwersi ACRh.

## 6.5 Dysgwyr

6.5.1 Er mwyn cefnogi dysgwyr i ddeall y pedwar diben o fewn Cwricwlwm i Gymru, mae llais y dysgwr yn ganolog i ddatblygu ein cwricwlwm ACRh. I sicrhau bod ein cwricwlwm ACRh yn bodloni anghenion ein dysgwyr rydym yn darparu cyfleoedd iddynt wneud sylw ar bolisi ACRh yr ysgol, cynlluniau gwaith a chynnwys gwersi trwy gynnal gweithgareddau ymgynghori gyda dysgwyr (blwyddyn 3-6 bob blwyddyn).

6.5.2 Rydym yn ymgynghori'n barhaus gyda'n dysgwyr ar ddiwedd gwersi, gweithgareddau a rhaglenni er mwyn sicrhau priodoldeb ein darpariaeth a bod yr adnoddau ac asiantaethau allanol a ddefnyddir yn berthnasol, yn briodol yn ddatblygiadol, yn gynhwysol ac yn sensitif i anghenion dysgwyr. Byddwn yn gweithredu ar unrhyw newidiadau a argymhellir fel bo'n briodol.

## 6.6 Gweithwyr proffesiynol eraill

6.6.1 **Gweithio gydag asiantaethau allanol arbenigol**

SAMPLE

Er mwyn gwella a chyfoethogi ein darpariaeth ACRh, yn achlysurol cefnogir yr addysgu gan asiantaethau allanol ( e.e. Stonewall, Viva, nyrs yr ysgol, gweithwyr iechyd proffesiynol Sbectrwm Hafan Cymru, NSPCC ac ati.)

6.6.2 Bydd yr asiantau hyn yn cael eu dewis yn ofalus a bydd yr ysgol yn sicrhau cydymffurfiaeth â phob un o bolisïau perthnasol yr ysgol mewn perthynas ag ymweliadau ag ysgolion. Bydd yn rhaid i'r ysgol hefyd sicrhau bod yr adnoddau a ddefnyddir gan asiantau yn briodol yn ddatblygiadol ar gyfer y dysgwyr. Byddant hefyd yn ymwybodol y bydd aelod o staff yr ysgol yn bresennol drwy gydol y wers/gweithgaredd/cyflwyniad.

## 7 Cwricwlwm

### 7.1 Dylunio'r Cwricwlwm

**7.1.1** Bydd ein cwricwlwm ACRh yn cael ei addysgu trwy themâu trawsgwricwlaidd a bydd yn gysylltiedig â phob Maes Dysgu a Phrofiad fel bo'n briodol. Bydd hyn yn caniatáu i ddysgwyr wneud cysylltiadau rhwng eu dysgu mewn ACRh a'r cwricwlwm ehangach, deall safbwyntiau a dylanwadau hanesyddol, diwylliannol, daearyddol, corfforol, gwleidyddol, cymdeithasol a thechnolegol ar faterion ACRh.

7.1.2 Mae cynnwys gorfodol y Cod ACRh wedi ei osod o fewn tair elfen ddysgu eang wedi eu cydgysylltu, sef:

**1. Perthnasau a hunaniaeth - mae'r elfen hon yn canolbwyntio ar:**
- yr amrywiaeth o berthnasau y mae bodau dynol yn eu cael yn ystod eu bywydau

- sut y gall hunaniaeth gael ei siapio gan ein perthnasau a rhywioldeb

- pwysigrwydd hawliau dynol wrth sicrhau perthnasau iach, diogel a chyflawn mewn cymdeithas gynhwysol.

**2. Iechyd a lles rhywiol - mae'r elfen hon yn canolbwyntio ar:**
- dysgu am sut mae pethau byw yn tyfu, yn atgynhyrchu a'u cylch bywyd

- datblygu dealltwriaeth o'r corff dynol, gan gynnwys teimladau pobl am eu cyrff a sut y gellir cynrychioli'r rhain

SAMPLE

- y materion iechyd sy’n gysylltiedig â pherthnasau a rhywioldeb

- dealltwriaeth o sut mae rhywioldeb ac iechyd rhywiol yn effeithio ein lles

**3. Grymuso, diogelwch a pharch - mae’r elfen hon yn canolbwyntio ar:**

- hawliau dysgwyr i ddiogelwch ac amddiffyn a rhyddid rhag niwed a gwahaniaethu

- sut a ble i gael gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth

- sut i gefnogi ac eirioli ar gyfer hawliau, triniaeth deg a pharch i bawb.

7.1.3 Mae’r elfennau dysgu ac addysgu wedi eu gosod mewn tri cham datblygiadol eang fel a ganlyn:

- Cam 1: o 3 oed
- Cam 2: o 7 oed
- Cam 3: o 11 oed

7.1.4 Bydd ein harweinydd ACRh yn cyfathrebu gyda phob ysgol gynradd ac uwchradd yn y clwstwr i sicrhau pontio esmwyth i blant o gam un, i gam dau ac o gam dau i gam tri ac yn gwirio bod y cynnwys yn briodol yn ddatblygiadol i bob un o’n dysgwyr.

7.1.5 Mae cynllunio, addysgu, gwerthuso a monitro’r rhaglen ACRh yn cael ei wneud gan athrawon a’r Arweinydd ACRh yn ein hysgol.

7.1.6 I sicrhau bod cwricwlwm ACRh ysgol gyfan yn briodol yn ddatblygiadol rydym yn ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys:

- oedran, gwybodaeth ac aeddfedrwydd dysgwyr
- anghenion dysgu ychwanegol
- datblygiad ac anghenion cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol
- gall anghenion oedrannau tebyg fod yn wahanol.

SAMPLE

## 7.2 Cynnydd ACRh drwy gynllun gwaith ysgol gyfan

7.2.1 Nodir ein darpariaeth ACRh ysgol gyfan o fewn dogfen cynllun gwaith. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut rydym yn rheoli, trefnu a gwreiddio ACRh trwy ein cwricwlwm ysgol gyfan i alinio gyda'r camau dilyniant o fewn Cwricwlwm i Gymru a'r camau o fewn y Cod ACRh. Mae'r adnoddau a ddefnyddir yn cael eu dewis ar gyfer eu haddasrwydd ac yn cael eu hadolygu o ran eu heffeithiolrwydd ar ôl eu defnyddio gan athrawon a'r aelod o staff ACRh arweiniol.

**7.2.2 Gwasanaethau iechyd, lles a chefnogaeth i ddysgwyr**
O fewn ein darpariaeth ACRh bydd dysgwyr yn cael gwybod ynglŷn â gwasanaethau cefnogi iechyd a lles priodol a sut i gael mynediad atynt.

**7.2.3 Ateb cwestiynau dysgwyr**
Bydd gan ddysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau cyfrinachol/dienw pan fo'n briodol trwy ddefnyddio blwch cwestiynau dienw. Rydym yn gweld cwestiynau fel arwydd cadarnhaol fod dysgwyr yn ymgysylltu â'r hyn a addysgir ac yn gallu mynegi chwilfrydedd naturiol am eu hunain, eu cyrff a pherthnasau gydag eraill.

7.2.4 Bydd cwestiynau'n cael eu hateb yn sensitif ac mewn modd sy'n briodol yn ddatblygiadol.

7.2.5 Ni ddisgwylir i'n staff ateb bob cwestiwn os ydynt yn credu fod rhai yn amhriodol. Ni ddisgwylir iddynt ateb unrhyw gwestiynau personol am eu hunain ac ni fyddant yn gofyn cwestiynau personol uniongyrchol i ddysgwyr a allai wneud unrhyw un yn ddiamddiffyn.

# 8 Cyfrinachedd a Diogelu

## 8.1 Amgylchedd Dysgu Diogel

8.1.1 Bydd yr ysgol yn sicrhau amgylchedd dysgu diogel i athrawon, staff a dysgwyr trwy sefydlu a chytuno i gytundebau/rheolau dosbarth yr ysgol.  Nodir y cytundebau dosbarth yn nogfen mapio cynlluniau gwaith ysgol gyfan.

SAMPLE

8.1.2 Bydd dysgwyr yn ymwybodol o faterion cyfrinachedd ac na fydd unrhyw ddatgeliadau diogelu yn cael eu cadw a byddant yn cael eu rhannu yn unol â gweithdrefnau diogelu ein hysgol.

## 9. Rhannu Gwybodaeth a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

9.1.1 Dylai'r ysgol gydymffurfio gyda'i dyletswyddau dan Ddeddf Diogelu Data 2018 bob amser wrth brosesu gwybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth ACRh.

## 10. Cydraddoldeb

10.1 Fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau, ni fyddwn yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, hil neu ethnigrwydd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth nac ar sail yr iaith Gymraeg. Mae'r holl ddysgwyr, eu rhieni a'u gofalwyr, gwirfoddolwyr, staff a llywodraethwyr yr ysgol yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Er mwyn gwneud penderfyniadau sensitif a gwybodus am anghenion dysgwyr a gallu rhieni/gofalwyr i ymateb i anghenion eu plant, mae'n bwysig i staff ysgolion fod yn sensitif ynghylch gwahanol batrymau teuluoedd, ffyrdd o fyw ac i batrymau magu plant sy'n amrywio ar draws gwahanol grwpiau hil, ethnig a diwylliannol. Ni fyddwn yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth. Byddwn yn gweithio gydol cymuned ein hysgol i sicrhau bod ein hymrwymiad i gydraddoldeb a thegwch yn cael ei rannu a byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod ein hysgol yn hygyrch, yn groesawgar ac yn gynhwysol.

10.2 Gweler ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol am ragor o wybodaeth.

## 11. Cwynion

11.1 Dilynwch ein gweithfrefn gwyno arferol: e.e. gellir symud cwynion ymlaen o'r athro i'r pennaeth, yna i'r corff llywodraethu, ac yna i'r awdurdod lleol.

11.2 Gweler polisi cwynion yr ysgol.

SAMPLE

## 12. Monitro ac Adolygu

12.1 Bydd y pennaeth yn gyfrifol am fonitro'r polisi hwn.

12.2 Bydd y polisi'n cael ei fonitro'n gyson e.e. adolygu data, adborth holiadur, adolygiadau ac ati.

12.3 Adolygir y polisi hwn yn unol â chynllun datblygu'r ysgol. Cynhelir adolygiad bob 3 mlynedd, neu'n gynt lle bo angen neu os bydd canllawiau newydd ar gael.

## 13. Cyfeiriadau

13.1 Teach Health 4 Kids – Datblygwyd y polisi model hwn o bolisi model Teach Health 4 Kids.

13.2 Cod ACRh Llywodraeth Cymru

https://www.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-y-cod-addysg-cyd-berthynas-rhywioldeb

13.3 Cwricwlwm i Gymru

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru

SAMPLE